



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

Casgliad o dasgau i ddatblygu ac asesu sgiliau iaith Gymraeg yn erbyn y **Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Ymarferwyr Addysg**



LEFEL HYFEDREDD

Llyfryn Tasgau Hyfedredd

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys nifer o dasgau Hyfedredd i ddatblygu ac asesu pob sgil yn y Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Ymarferwyr Addysg.

Mae croeso i chi:

- argraffu tasgau
- lawrlwytho tasgau
- addasu tasgau i siwtio'ch anghenion chi
- addasu teitlau'r dogfennau i'ch siwtio chi
- ddefnyddio unrhyw dasg a fydd yn eich cefnogi chi i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ac i asesu myfyrwyr yn erbyn y Fframwaith.

Tabl cynnwys

Tasg llafar a darllen 1	3
Tasg llafar a darllen 2	4
Tasg llafar a darllen 3	5
Tasg darllen 1	7
Tasg darllen 2	9
Tasg darllen 3	13
Tasg llafar a gwrando 1	19
Tasg llafar a gwrando 2	20
Tasg llafar a gwrando 3	22
Tasg darllen ac ysgrifennu	24

Tasg Llafar a Darllen (1): Hyfedredd C1

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Darllenwch y tri detholiad isod:

1. Undod ac Amrywiaeth

<https://hwb.gov.wales/api/storage/5974d469-006d-4104-a03a-a0e2fc0b09bd/undod-ac-amrywiaeth.pdf>

Mae hwn yn adroddiad pwysig a defnyddiol iawn a byddai'n werth i chi ei ddarllen yn ei gyfarwydd. O safbwynt y dasg hon gofynnir i chi ganolbwyntio ar dudalennau 2- 13.

2. Adroddiad Yr Athro Charlotte Williams

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiadd-lleiafrifoedd-ethnig-cwricwlwm-newydd-adroddiad-terfynol.pdf>

Mae hwn eto yn werth ei ddarllen yn ei gyfarwydd ond gofynnir i chi ganolbwyntio ar adran o'r enw 'Y Cyd-destun: pam bod y ffocws hwn yn bwysig i'r cwricwlwm newydd?' t.20 - 24 ar gyfer y dasg hon.

3. Adroddiad Estyn:

<https://www.estyn.llyw.cymru/document-page/20673/contents/document-details/prif-ganfyddiadau>

Addysgu hanes Cymru gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, Darllenwch yr adran: Prif Ganfyddiadau – mae angen mynd i chwith y dudalen a dewis yr adran yma o'r ddewislen. Mae tair rhan i'r canfyddiadau sef Safonau, Darpariaeth ac Arweinyddiaeth

Ar ôl i chi eu darllen y detholiadau, dadansoddwch yn fanwl yr hyn a drafodir mewn cyflwyniad llafar adfyfyriol a chydlynnes. Dylech recordio eich cyflwyniad a chyflwyno'ch hunain yn glir ar ddechrau'r recordiad. Amlinellwch yn glir eich ymateb personol i'r canfyddiadau.

Mae nodiadau byr yn dderbyniol, ond ni ddylech sgriptio'ch cyflwyniad llafar gair am air o flaen llaw.

Tasg Llafar a Darllen (2): Hyfedredd C1

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Darllenwch yr erthyglau isod ar rai o'r heriau sydd yn wynebu Cwricwlwm i Gymru (CiG):

A fydd y Cwricwlwm i Gymru newydd yn gallu cyflawni ei ddibenion?

Gatley, Jane

Curriculum journal (London, England), 2020, Vol.31 (2)

[A fydd y Cwricwlwm i Gymru newydd yn gallu cyflawni ei ddibenion? - Open University](#)

'Dyfodol llwyddiannus' i bawb yng Nghymru? Yr heriau wrth ddiwygio cwricwla i ymdrin ag anghydraddoldeb addysgol

Power, Sally ; Taylor, Chris ; Newton, Nigel

Curriculum journal (London, England), 2020, Vol.31 (2), p.e148-e16

['Dyfodol llwyddiannus' i bawb yng Nghymru? Yr heriau wrth ddiwygio cwricwla i ymdrin ag anghydraddoldeb addysgol \(wiley.com\)](#)

Cynnydd dysgu yn y dyniaethau: canfod tensiynau wrth gyfleu cynnydd yn y dyniaethau yng Nghymru

Hughes, Sioned ; Makara, Kara ; Stacey, Dave

Curriculum journal (London, England), 2020, Vol.31 (2), p.e104-e118

[Cynnydd dysgu yn y dyniaethau: canfod tensiynau wrth gyfleu cynnydd yn y dyniaethau yng Nghymru \(wiley.com\)](#)

Ar ôl i chi eu darllen, mynegwch eich ymateb personol iddynt ar lafar mewn cyflwyniad cydlynnes gan ganolbwyntio ar y cwestiynau canlynol:

- Beth yw'r prif heriau sy'n wynebu CiG yn ôl yr erthyglau?
- Beth yw'ch barn chi o gasgliadau awduron?
- Pwy yw'r gynulleidfa darged?
- Yn eich barn chi, sut y medrai dysgu proffesiynol helpu goresgyn heriau o'r fath, wrth i'r cwricwlwm gael ei ymgorffori yn ein hysgolion?

Hyd y cyflwyniad: 10 munud

Gellid troi'r uchod yn dasg **Darllen ac Ysgrifennu** gan ddefnyddio'r cwestiynau uchod fel fframwaith i drafodaeth unigol ysgrifenedig.

Tasg Llafar a Darllen (3): Hyfedredd C1

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Darllenwch y dogfennau a'r adroddiadau isod ac yna **mewn grŵp o dri**, trafodwch y testun 'Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022.'

Ystyriwch yr agweddau canlynol:

- Y cefndir i'r newidiadau
- Y cyfleoedd newydd
- Yr heriau ar hyd y daith
- Y gwaith cynllunio a pharatoi
- Eich profiad personol o'r cwricwlwm

Ni ddylech sgriptio'ch atebion o flaen llaw, ond yn hytrach, dylech wrando ar sylwadau eich gilydd ac ymateb yn naturiol iddynt. Cofiwch recordio eich hun a chyfeirio at eich ffynonellau wrth drafod.

Hyd y drafodaeth: 15-20 munud.

Dogfennau'r Llywodraeth

<https://hwb.gov.wales/api/storage/9da091a5-db8b-4202-b79e-af1f336e4c25/cwricwlwm-i-gymru-y-daith-i-2022.pdf>

<https://llyw.cymru/paratoi-ar-gyfer-y-cwricwlwm-newydd>

<https://llyw.cymru/deddf-cwricwlwm-ac-asesu-cymru>

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/adroddiad-ar-ymatebion-i%E2%80%99r-sgwrs-fawr.pdf>

Adroddiadau Thematig Estyn

Arloesi'r cwricwlwm mewn ysgolion cynradd

www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Curriculum%20innovation%20in%20primary%20schools%20-%20cy.pdf

Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru

<https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/Preparing%20for%20the%20Curriculum%20for%20Wales%20cy.pdf>

Os dewiswch chi ddarllen deunyddiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ac Estyn ar y testun hwn, yna gallech chi gyflwyno'r dystiolaeth yn adran **Addysgu a Dysgu** eich portffolio hefyd os yw'r deunyddiau hyn yn trafod methodolegau ac addysgeg iaith yn benodol.

Tasg Darllen (1): Hyfedredd C1

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Darllenwch y tair erthygl isod:

A fydd y Cwricwlwm i Gymru newydd yn gallu cyflawni ei ddibenion?

Gatley, Jane

Curriculum journal (London, England), 2020, Vol.31 (2)

[A fydd y Cwricwlwm i Gymru newydd yn gallu cyflawni ei ddibenion? - Open University](#)

'Dyfodol llwyddiannus' i bawb yng Nghymru? Yr heriau wrth ddiwygio cwricwla i ymdrin ag anghydraddoldeb addysgol

Power, Sally ; Taylor, Chris ; Newton, Nigel

Curriculum journal (London, England), 2020, Vol.31 (2), p.e148-e16

['Dyfodol llwyddiannus' i bawb yng Nghymru? Yr heriau wrth ddiwygio cwricwla i ymdrin ag anghydraddoldeb addysgol \(wiley.com\)](#)

Cynnydd dysgu yn y Dyniaethau: canfod tensiynau wrth gyfleu cynnydd yn y Dyniaethau yng Nghymru

Hughes, Sioned ; Makara, Kara ; Stacey, Dave

Curriculum journal (London, England), 2020, Vol.31 (2), p.e104-e118

[Cynnydd dysgu yn y dyniaethau: canfod tensiynau wrth gyfleu cynnydd yn y Dyniaethau yng Nghymru \(wiley.com\)](#)

Ar ôl i chi eu darllen, ysgrifennwch ddarn byr, **tua 500 gair**, yn ymateb i'r cwestiynau isod. Cofiwch mai canolbwyntio ar eich mynegiant ieithyddol y byddwn ni y tro hwn.

- Crynodeb byr o'r erthyglau a'u cyd-destunau e.e. Sut mae'r awdur yn ymdrin â'r pwnc? A allent fod wedi ystyried hyn o safbwynt arall?
- Beth yw'r prif heriau sy'n wynebu CiG yn ôl yr erthyglau? Beth yw'r prif faterion a dadleuon? Pwy yw'r gynulleidfa?
- Oes unrhyw beth sy'n eich synnu am yr erthygl? Beth yw eich ymateb i'r safbwyntiau?

Ystyriwch:

- Cywirdeb ieithyddol e.e. treigladau cywir, cenedl enwau cywir.
- Berfau addas: defnyddiwch y ffurfiau amhersonol yn gywir.
- Cywair iaith ffurfiol e.e. 'rwy' yn lle 'dw i'.
- Geirfa addas ar gyfer y pwnc.
- Mynegiant – ydy'r brawddegau'n llifo? Ydy'r hyn rydych yn ceisio ei ddweud yn glir?
- Cofiwch eich bod yn gallu rhedeg y darn drwy becyn Cysgliad.

***Gall y darn hwn gael ei ddefnyddio hefyd ar gyfer tystiolaeth ysgrifennu**

Tasg Darllen (2): Hyfedredd C1

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Trafodwch rôl a phwysigrwydd fframweithiau addysgol a chwricwlaidd a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o fewn Strategaeth Addysg Cymraeg 2050, Fframwaith Cwricwlwm newydd i Gymru a'r Fframwaith Siarter Iaith. [Cyfateb i 2000 gair]

Dylech gynnwys y pwyntiau hyn yn eich trafodaeth:

- i. dadansoddi *negeseuon* allweddol a *bwriadau* i gynyddu nifer o siaradwyr Cymraeg o fewn Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru – Cymraeg 2050 o ran y *blynyddoedd cynnar* ac mewn *addysg statudol*. Gweler cyfeiriadaeth 1, 2, 9; 'Arall' – Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg – dewiswch un.
- ii. dadansoddi rôl ganolog y Gymraeg o fewn y *pedwar diben* a sut y gall y Fframwaith Llythrennedd a'r Fframwaith Cwricwlwm i Gymru *adlewyrchu Cymru, diwylliant Cymraeg a'r genedl ddwyieithog/amlieithog*? Gweler cyfeiriadaeth 4, 7, 8, 12, 13 a 14;
- iii. dadansoddi pwysigrwydd blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth leol yn y broses o hyrwyddo *defnydd anffurfiol cymdeithasol* disgyblion o'r Gymraeg a sut mae'r blaenoriaethau hyn wedi ei *wreiddio mewn ymchwil*. Gweler cyfeiriadaeth 2 [uwchradd], 5, 6, 10 – 11, 14-15.
- iv. ffurfio casgliad sy'n :
 - a. crynhoi sut mae'r fframweithiau addysgol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn cyfnerthu ei gilydd ac yn amlygu pwysigrwydd y Gymraeg mewn addysg;
 - b. nodi pa ystyriaethau y dylech chi fel darpar addysgwr eu hystyried a'u holrhain wrth addysgu boed yn y sector cynradd, uwchradd neu'r ddau sector (os rydych yn dilyn y cwrs traws gyfnod).

Cyfeiriadaeth Rhan 1:

1. Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Cynllun gweithredu 2020-2021. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-07/ATISN%2014033%20-%20%20Doc%2021.pdf> (Cyrchwyd: 23/8/22)
2. Cyngor Gwynedd. Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd. Ar gael yn: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-iaith/Cynllun-Hybu'r-Gymraeg-yng-Ngwynedd-2018-2023.pdf> [Cyrchwyd 30/9/22]
3. Davies. K.; (2017). Blog Cwricwlwm i Gymru, Miliwn o Siaradwyr Cymraeg – gallwn wneud hyn. Ar gael o: <https://cwricwlwmigymru.llyw.cymru/2017/12/18/miliwn-o-siaradwyr-cymraeg-gallwn-gyflawni-hyn/> (Cyrchwyd: 23/8/21)
4. Donaldson, G.; (2015) Dyfodol Llwyddiannus, (tud.24-27). Caerdydd: Llywodraeth Cymru
5. O Riagain P., Williams G., a F.X Vila i Moren., 2008. *Young People and Minority Languages: Language use outside the classroom*. Dulyn: Coleg y Drindod. Ar gael yn: <https://gaeloideachas.ie/wp-content/uploads/2017/06/Young-People-and-Minority-Languages.pdf> (Cyrchwyd: 23/8/21)
6. Strubell, M., 2004. [Ar-lein] *Language proficiency and language use*. Gweler Blackboard PACH, o dan y tab Cymraeg, dogfen Portffolio Cymraeg.
7. Llywodraeth Cymru (2020). Canllawiau *Cwricwlwm i Gymru*, tud. 30-31. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/> (Cyrchwyd: 23/8/21)
8. Llywodraeth Cymru (2020). *Cwricwlwm i Gymru: Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/> (Cyrchwyd: 23/8/21)
9. Llywodraeth Cymru, 2017. *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*. Caerdydd: LLC Ar gael yn: <https://llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg> [Cyrchwyd: 23/8/21]

10. Llywodraeth Cymru, 2019. *Fframwaith Siarter Iaith: Canllaw cychwynol i ysgolion*. Caerdydd: LIC. Ar gael yn:
<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/siarter-iaith> [Cyrchwyd: 23/8/21]
11. Llywodraeth Cymru, 2021, Gwerthusiad o'r Siarter Iaith. Ar gael yn:
<https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-siarter-iaith> [Cyrchwyd: 23/8/21]
12. Cymdeithas Ddysgedig Cymru (2021) Trwy Brism Iaith: iaith ac addysg: dysgu, addysgu ac asesu. Rhan o ymateb Ann V Jones (11.08 – 18.42munud). Ar gael yn:
<https://www.youtube.com/watch?v=gZo02CnsEBA&list=PL-uJUGTc4xJuMd8gedtb02m8zAhaUQVb0&index=5>
[Cyrchwyd: 23/8/21]
13. Cymdeithas Ddysgedig Cymru (2021) Trwy Brism Iaith: iaith ac addysg: dysgu, addysgu ac asesu – TBI adroddiad ac argymhellion. Ar gael o :
<https://www.learnedsociety.wales/lsw-event/2021-senedd-elections-science-hustings/tbi-adroddiad-ac-argymhellion/> [Cyrchwyd: 23/8/21]
14. Llywodraeth Cymru, 2021. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Caerdydd: LLC. Ar gael yn:
[Fframweithiau'r sgiliau trawsgwricwlaidd - Hwb \(gov.wales\)](https://www.gov.wales/fframweithiau-r-sgiliau-trawsgwricwlaidd-hwb) [Cyrchwyd: 08/08/2021]
15. Llywodraeth Cymru, 2015. *Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15*. Caerdydd: LLC Ar gael:
<https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/160301-welsh-language-use-in-wales-2013-15-cy.pdf> (Cyrchwyd: 20 Awst, 2021)

Rhestr gyfeirio ar gyfer gwerthuso'r sesiwn addysgu yn y pecyn dysgu:

1. Adnoddau Prosiect Llafaredd/ Llais 21 . Ar gael:
<https://sites.google.com/hwbcymru.net/prosiect-llafaredd-llais21/sut-i-ddysgu-llafaredd> (Cyrchwyd: 07/21)
2. Apolloni, D., Parry., N.M., and Thomas, E.M., 2018. *Dulliau Addysgu Dwyieithog*. Bangor: Prifysgol Bangor. Ar gael o:
<https://www.bangor.ac.uk/education-and-humandevelopment/documents/English-pages.pdf>
(Cyrchwyd 27/3/2020)

3. Coleg Cymraeg Cenedlaethol, 2013. *Methodoleg*. Ar gael o:
https://adnoddau.porth.ac.uk/bbcswebdav/pid-37702-dt-content-rid-18993_2/courses/ADD0902/Dogfennau%E2%80%99%20Cwrs/Methodoleg/Methodoleg/Methodoleg.pdf (Cyrchwyd 9/2030)
4. Corbett, P; (2011) *Talk for writing across the curriculum*, Milton Keynes: Open University.
(Ar gael yn y Gymraeg hefyd)
5. DfCSF, 2010. *Languages Learning at KS2*, Chapter 7, *Pedagogy.2010*.
6. Estyn (2020). *Caffael yr Iaith Gymraeg*. Caerdydd. Ar gael :
<http://estyn-lc.staging.website-express.co.uk/system/files/2021-08/Estyn%20Welsh%20language%20acquisition%20W%284%29.pdf>
(Cyrchwyd: 06, 2021)
7. [Sector cynradd] Forse, D.; A fydd mabwysiadu 'Talk For Writing' gan Pie Corbett yn gwella ysgrifennu ffeithiol ar draws y cwricwlwm... Ar gael o : *Talk for writing across the curriculum*, Milton Keynes: Open University.
https://www.cscjes-cronfa.co.uk/api/storage/765bfcff-6ec2-4592-8dcc-b8d50734e5c0/Cadoxton%20Primary%20-%20Research_welsh.pdf

Tasg Darllen (3): Hyfedredd C1

Teitl: Trafodwch bwysigrwydd y Gymraeg ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru o fewn Strategaeth Addysg Cymraeg 2050 a Fframweithiau'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Dull cyflwyno : gweler y tabl.

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Wrth drafod dylech gynnwys y pwyntiau hyn:

- (a) *negeseuon* allweddol a *bwriadau* i gynyddu nifer o siaradwyr Cymraeg o fewn Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru – Cymraeg 2050 i
- deuluoedd,
 - rieni plant yn y blynyddoedd cynnar
 - rieni plant mewn addysg statudol
- [Cyfeiriadaeth: 1, 2 a 7]
- (b) sut mae'r Gymraeg yn *ganolog* o fewn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru?
- esboniad Donaldson pam bod y Gymraeg yn ganolog yn y Fframwaith Cwricwlwm i Gymru [Cyfeiriadaeth: 3];
 - sut mae'r Gymraeg yn ganolog yn y pedwar diben o fewn y Fframwaith Cwricwlwm i Gymru? [Cyfeiriadaeth 5, 6,];
 - sut mae'r Fframwaith llythrennedd yn hyrwyddo'r Gymraeg yn drawsgwricwlaidd yn eich tyb chwi? [Cyfeiriadaeth: 12]
 - beth yw diben a nod y Fframwaith Siarter mewn ysgolion cynradd? [Cyfeiriadaeth: 9, 13 a 4]
 - sut mae'r Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn adlewyrchu Cymru, diwylliant Cymraeg a'r genedl ddwyieithog/amlieithog? [Cyfeiriadaeth 10, 11]
- (c) Cloi'n effeithiol trwy ddod â negeseuon a phwysigrwydd y ddogfennaeth a'r fframweithiau at ei gilydd yn eglur.
- (d) Cyflwynwch agweddau neu ystyriaethau y byddwch chi'n archwilio rhagor neu ddysgu mwy amdanynt fel athro cysylltiol ar gyfer hybu'r Gymraeg ar brofiad ysgol. Cofiwch roi rhesymau a chyfiawnhau eich dewis trwy gyfeirio at eich darllen cefndirol.

Gweler Atodiad A : Meini prawf rhan A.

2200 gair

Cyfeiriadau

1. Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Cynllun gweithredu 2020-2021. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf> (Cyrchwyd: 23/8/21)
2. Davies. K.; (2017). Blog Cwricwlwm i Gymru, Miliwn o Siaradwyr Cymraeg – gallwn wneud hyn. Ar gael o: <https://cwricwlwmigymru.llyw.cymru/2017/12/18/miliwn-o-siaradwyr-cymraeg-gallwn-gyflawni-hyn/> (Cyrchwyd: 23/8/21)
3. Donaldson, G.; (2015) Dyfodol Llwyddiannus, (tud.24-27). Caerdydd: Llywodraeth Cymru
4. Strubell, M., 2004. [Ar-lein] *Language proficiency and language use*. Ar gael yn: https://www.euskara.euskadi.eus/r59-738/en/contenidos/informacion/artik3_1_strubell_05_10/en_10616/artik3_1_strubell_05_10.html (Cyrchwyd: 23/8/21)
[Os cewch drafferth – ewch i'r modiwl Xcc2213 ac yna mae copi ar gael o dan Portffolio Cymraeg]
5. Llywodraeth Cymru (2020). Canllawiau *Cwricwlwm i Gymru*, tud. 30-31. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Cliciwch ar Cyflwyniad o ganllawiau Cwricwlwm i Gymru wedyn ar y **ddolen yn y testun** yma sef 'pedwar diben' fydd yn agor y 4 diben yn llawn I chi wedyn.] Ar gael yn: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2021/01/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru.pdf>
6. Llywodraeth Cymru (2020). *Cwricwlwm i Gymru: leithoedd, llythrennedd a chyfathrebu*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Crynowch sut mae'r maes yma – sy'n cynnwys Cymraeg yn ffitio i'r 3 diben] <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/> (Cyrchwyd: 23/8/21)
7. Llywodraeth Cymru, 2017. *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*. Caerdydd: LLC (Darllenwch y rhagair; tud31- 39 ac ystyriwch hefyd pa mor bwysig yw codi nifer o athrawon sy'n siarad Cymraeg yn y gweithlu byd addysg (tud.43)
Ar gael yn: <https://llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg>
[Cyrchwyd: 23/8/21]

8. Llywodraeth Cymru, 2019. *Fframwaith Siarter Iaith: Canllaw cychwynnol i ysgolion*. Caerdydd: LIC. Ar gael yn:
<https://hwb.gov.wales/siarter#fframwaith-a-chanllawiau-pellach/>
[Cyrchwyd: 23/8/21]
9. Llywodraeth Cymru, 2021, Gwerthusiad o'r Siarter Iaith. Ar gael yn:
<https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-siarter-iaith> [Cyrchwyd: 23/8/21]
10. Cymdeithas Ddysgedig Cymru (2021) Trwy Brism Iaith: iaith ac addysg: dysgu, addysgu ac asesu. Rhan o ymateb Ann V Jones (11.08 – 18.42munud). Ar gael yn:
<https://www.youtube.com/watch?v=gZo02CnsEBA&list=PL-uJUGTc4xJuMd8gedtb02m8zAhaUQVb0&index=5>
[Cyrchwyd: 23/8/21]
11. Cymdeithas Ddysgedig Cymru (2021) Trwy Brism Iaith: iaith ac addysg: dysgu, addysgu ac asesu – TBI adroddiad ac argymhellion. Ar gael o :
https://www.learnedsociety.wales/?attachment_id=18007 [Cyrchwyd: 23/8/21]
Mae'r copi hwn hefyd ar Blackboard o fewn y modiwl ac o dan Cymraeg: diwylliant, iaith ac addysgeg -Portffolio Cymraeg.
12. Llywodraeth Cymru, 2021. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Caerdydd: LLC. Ar gael yn:
[Fframweithiau'r sgiliau trawsgwricwlaidd - Hwb \(gov.wales\)](#) [Cyrchwyd: 1/2021]

ATODIAD A : Meini prawf Rhan A

Marc categorïaidd		Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc (40%)	Ansawdd y dadansoddiad beirniadol a'r gwerthuso (30%)	Iaith a mynegiant (20%)	Strwythur a chyflwyniad (10%)
A* 95 A+ 87 A 80 A- 74	Llwyddo gyda Rhagoriaeth <i>Rhagorol</i>	Gwybodaeth a dealltwriaeth ardderchog o bolisiâu a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Gymraeg mewn addysg. Gwybodaeth a dealltwriaeth ardderchog o'r Gymraeg o fewn y fframweithiau/dogfennaeth cwricwlaidd: 4 diben; Cwricwlwm i Gymru. Fframwaith llythrennedd a'r Fframwaith Siarter Iaith. Adlewyrchir ystod ragorol o ddarllen.	Dadansoddiad ardderchog am bwysigrwydd y Gymraeg mewn addysg. Gwneir cysylltiadau integredig ardderchog rhwng y darlenniadau yn y clo. Mae goblygiad ar gyfer ymarfer yn y dyfodol wedi'u nodi'n glir ac wedi ei gyfiawnhau gyda'r darllen cefndirol yn ardderchog.	Mynegi cysyniadau cymhleth yn rhagorol. Paragraffau'n cyflwyno dadansoddiad beirniadol a dadl resymedig. Defnydd rhagorol o eirfa arbenigol. Dim gwallau gramadegol.	Mae fframwaith yr aseiniad yn ardderchog. Defnyddir dull cyfeirio Harvard heb unrhyw wallau. Mae'r ysgrifennu'n canolbwyntio ar y gofynion.

B+ 68 B 65 B- 62		Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o bolisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Gymraeg mewn addysg. Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r Gymraeg o fewn y fframweithiau/dogfennaeth cwricwlaidd: 4 diben; Cwricwlwm i Gymru. Fframwaith llythrennedd a'r Fframwaith Siarter Iaith Adlewyrchir ystod dda o ddarllen.	Dadansoddiad da iawn am bwysigrwydd y Gymraeg mewn addysg . Gwneir cysylltiadau integredig da iawn rhwng y darlenniadau yn y clo. Mae goblygiad ar gyfer ymarfer yn y dyfodol wedi'u nodi'n glir ac wedi ei gyfiawnhau gyda'r darllen cefndirol yn dda iawn.	Mynegi cysyniadau cymhleth yn dda iawn Paragraffau yn cyfleu dadl resymedig. Defnydd da o eirfa arbenigol. Mân wallau gramadegol.	Mae fframwaith yr aseiniad yn dda iawn Defnyddir dull cyfeirio Harvard mewn modd cyson gyda mân wallau. Mae'r ysgrifennu'n canolbwyntio rhan amlaf ar y gofynion.
C+ 58 C 55 C- 52		Gwybodaeth a dealltwriaeth foddhaol o'r polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Gymraeg mewn addysg. Gwybodaeth a dealltwriaeth foddhaol o'r Gymraeg o fewn y fframweithiau/dogfennaeth cwricwlaidd: 4 diben; Cwricwlwm i Gymru. Fframwaith llythrennedd a'r Fframwaith Siarter Iaith Adlewyrchir ystod foddhaol o dda rllen.	Dadansoddiad da am bwysigrwydd y Gymraeg mewn addysg. Gwneir peth cysylltiadau integredig rhwng y darlenniadau yn y clo Mae goblygiadau ar gyfer ymarfer yn y dyfodol yn ddilys ond angen eu cyfiawnhau.	Mynegi cysyniadau cymhleth yn dda Y rhan fwyaf o baragraffau'n cyflwyno dadl resymedig ond gallant fod yn ddisgrifiadol. Peth defnydd o eirfa arbenigol. Mân wallau gramadegol a gwallau sillafu (gwallau teipio ac ati).	Mae fframwaith yr aseiniad yn dda ac yn adlewyrchu gofynion cyffredinol y cyflwyniad. Defnyddir dull cyfeirio Harvard y n anghyson gyda llawer o fân wallau. Caniatáu ar gyfer peth cynnwys amherthnasol.

D+ 48 D 45 D- 42		Dealltwriaeth foddhaol o'r polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Gymraeg mewn addysg. Gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol o'r Gymraeg o fewn y fframweithiau/dogfennaeth cwricwlaidd: 4 diben; Cwricwlwm i Gymru. Fframwaith llythrennedd a'r Fframwaith Siarter Iaith. Darllen yn cwrdd â gofynion yn foddhaol.	Dadansoddiad boddhaol am bwysigrwydd y Gymraeg mewn addysg . Prin yw'r cysylltiadau rhwng darlenniadau yn y clo. Cyffyrddir yn gyffredinol iawn at y goblygiadau ar gyfer ymarfer yn y dyfodol.	Mynegi cysyniadau yn foddhaol Rhai paragraffau'n cyflwyno dadl resymedig ond mae nifer yn ddisgrifiadol. Peth defnydd o eirfa arbenigol. Mân wallau gramadegol a gwallau sillafu (gwallau teipio ac ati).	Mae fframwaith yr aseiniad yn foddhaol ac yn adlewyrchu gofynion cyffredinol y cyflwyniad. Defnyddir dull cyfeirio Harvard y n anghyson gyda llawer o fân wallau. Mae peth cynnwys amherthnasol.
E+ 38 E 35 E- 32 F1 25 F2 15 F3 5	Methu	Nid yw'r wybodaeth yn dangos bron dim dealltwriaeth o'r polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Gymraeg mewn addysg. Gwybodaeth a dealltwriaeth annigonol o'r Gymraeg o fewn y fframweithiau/dogfennaeth cwricwlaidd: 4 diben; Cwricwlwm i Gymru. Fframwaith llythrennedd a'r Fframwaith Siarter Iaith Darllen cyfyngedig iawn.	Camddeall gofynion neu negeseuon y fframweithiau a'r ddogfennaeth. Ni wneir cysylltiadau rhwng darlenniadau yn y clo. Goblygiadau ar gyfer ymarfer yn y dyfodol yn gyfyngedig iawn (neu ddim yno o gwbl)	Cysyniadau ddim yn cael eu mynegi'n glir. Paragraffau heb eu llunio'n rhesymegol. Yr ysgrifennu'n ddisgrifiadol. Defnydd anghywir o eirfa arbenigol. Gwallau gramadegol a gwallau sillafu cyson yn effeithio ar eglurder yr ysgrifennu.	Nid yw fframwaith yr aseiniad yn adlewyrchu'r gofynion ac mae'n ddigyswllt yn aml. Defnyddir dull cyfeirio Harvard gyda gwallau mawr. Ailadrodd sylweddol a phethau wedi eu hepgor.

Tasg Llafar a Gwrando (1): Hyfedredd C1

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Gallech wrando ar un o'r podlediadau hyn: [Am Blant Podcast \(ypod.cymru\)](http://ypod.cymru) a'i thrafod ar lafar mewn grŵp o dri. Bydd angen i chi recordio'r sgwrs a chyflwyno eich hunan yn glir ar ddechrau'r recordiad. Sicrhewch fod pawb yn cyfranogi ac yn ymateb i'ch gilydd gan ddangos safbwyntiau gwahanol. Ni ddylech sgriptio eich atebion.

Ystyriwch y canlynol:

Crynodeb o'r drafodaeth yn y podlediad

Safbwyntiau gwahanol a fynegir

Elfennau allweddol a godir - gan roi enghreifftiau penodol o'r podlediad

Eich ymateb chi i'r podlediad. Oes pwyntiau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â nhw?
Pam? Ydych wedi profi rhywbeth tebyg yn yr ysgol?

A fydd y podlediad yn effeithio ar eich arfer yn yr ysgol neu ar eich ffordd o feddwl?

***Gall y darn hwn gael ei ddefnyddio ar gyfer tystiolaeth wrando hefyd.**

Tasg Llafar a Gwrando (2): Hyfedredd C1

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Gwrandewch ar **un** o'r podlediadau isod, yna mewn grŵp o **dri neu bedwar** trafodwch y podlediad gan ddefnyddio'r cwestiynau isod. Rhaid i chi recordio'r sesiynau isod gan ddefnyddio Teams. Bydd angen i un person wahodd y lleill i gyfarfod Teams ac yna gwasgu 'record'. Bydd y recordiad yna yn cael ei anfon at e-bost y person hwnnw ac yna gall ei rannu gyda'r lleill. Bydd angen i bob unigolyn gadw fersiwn o'r recordiad.

Rhaid i bawb gofio **cyflwyno eu hunain** ar ddechrau'r recordiad.
Dychmygaf y bydd y sgwrs yn para tua **15 – 20 munud**

Opsiwn 1

CYNRADD: Podlediad Nia:

Yn dilyn gwrando ar bodlediad gan Nia [Tameidiau o Ymchwil TAR 2: Dysgu cyfunol: Sut i hybu llythrenn... \(blubrry.com\)](#) (Darllen er pleser 35 munud).

Trafodwch:

1. Pam wnaeth Nia ddewis ffocysu ar y pwnc hwn?
2. Beth oedd prif negeseuon y llenyddiaeth?
3. Sut wnaeth hyn ddylanwadu ar ymarfer Nia?
4. Sut mae gwrando ar Nia wedi eich helpu i baratoi ar gyfer ysgrifennu'r aseiniad?

Opsiwn 2

UWCHRADD: Podlediad Becca:

Yn dilyn gwrando ar bodlediad gan Beca ITM:

<https://blubrry.com/pgcepodcast/75773142/tameidiau-o-ymchwil-tar-1-annog-cyfranogiad-llafar-yn-yr-ystafell-ddosbarth-ieithoedd-tramor-modern-gyda-becca-harries-a-dr-gina-morgan/> (Ffocws: hybu llafaredd - 30 munud).

Trafodwch:

1. Pam wnaeth Beca ddewis ffocysu ar y pwnc hwn?
2. Beth oedd prif negeseuon y llenyddiaeth?
3. Sut wnaeth hyn ddylanwadu ar ymarfer Beca?
4. Sut mae gwrando ar Beca wedi eich helpu i baratoi ar gyfer paratoi am aseiniad 1?

Opsiwn 3

Podllediad Elin:

Yn dilyn gwranddo ar bodllediad gan Elin: [Tameidiau o Ymchwil TAR 5 - Dysgu yn yr Awyr Agored gyda Elin ... \(blubrry.com\)](#)

Trafodwch:

1. Pam wnaeth Elin ddewis ffocysu ar y pwnc hwn?
2. Beth oedd prif negeseuon y llenyddiaeth?
3. Sut wnaeth hyn ddylanwadu ar ymarfer Elin?
4. Sut mae gwranddo ar Elin wedi eich helpu i baratoi ar gyfer eich aseiniad?

Tasg Llafar a Gwrando (3): Hyfedredd C1

Asesir: sgiliau gwrando, siarad a chydweithio mewn grŵp o 3.

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Ar lefel unigol, gwrandewch a darllenwch, o flaen llaw, ar y ffynonellau clyweledol sy'n ymwneud â'r Model y Sgwrs Genedlaethol' ar y testun 'Caffaeliad iaith plant' a gwnewch nodiadau fydd yn eich cynorthwyo i ateb cwestiynau trafod isod.

1. Podlediad Am blant (2022). Sut mae plant yn dysgu neu'n caffael iaith? A ydy trochi iaith yn effeithiol? Ar

gael: <https://ypod.cymru/podlediadau/amblant?id=amblant> [Cyrchwyd: 20/10/22]

Gwrandewch ar y drafodaeth ddifyr a chyfoes hon yng nghwmni aelodau'r panel: Owain Gethin Davies (Pennaeth Ysgol Dyffryn Conwy), Alaw Humphreys (Mudiad Meithrin) ac Esyllt Hywel Evans, yr Athro Enlli Thomas, a Dr Nia Young o Ysgol Gwyddorau Addysgol Prifysgol Bangor.

2. Estyn (2021) Caffael yr iaith Gymraeg . Caerdydd. Estyn. Ar gael:

<https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/caffael-yr-iaith-gymraeg>

(Cyrchwyd 20/20/23)

Ar ôl i chi eu gwrando a darllen, trafodaeth mewn grŵp.

- Ffurfiwch gyfansoddiad eich grŵp [3] eich hunain gan
- Recordiwch fel grŵp ar ffurf fideo mp4. Byddwch yn cael eich rhoi mewn tîm trafod.
- Cyflwynwch eich hunan yn glir gyda'ch enwau llawn ar ddechrau'r clip fideo a gwisgwch label gyda'ch enw'n llawn yn weledol ar gyfer cymedrolwyr cenedlaethol allanol y Fframwaith Cymhwysedd Iaith Cymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol.

Ar sail eich nodiadau, fydd ar ffurf pwyntiau bwled, trafodwch yr isod mewn grŵp o 3 a'i recordio:

- Yn eich tro, cyflwynwch eich hunain yn glir gan nad nodi'ch cefndir ieithyddol. (2m)
- Trafodwch rai agweddau sut mae cefnogi plant i fod yn siaradwyr ac i gaffael iaith? (5m)
- Trafodwch sut mae gwneud y Gymraeg yn berthnasol i blant? (5m)
- Yn eich tro, trafodwch pa negeseuon rydych chi am eu harddel a'u gweithredu fel darpar-ymarferwyr cynradd yn dilyn gwrandio ar y podlediad a rhan o'r mini gynhadledd ar drochi iaith isod. (5m)

Ni ddylid sgriptio'r atebion. Defnyddiwch y pwyntiau bwled ond heb fod yn or – ddibynol arnynt. Edrychwch ar y meini prawf llwyddiant ar gyfer y dasg gwrandio, siarad a chydweithio o flaen llaw cyn recordio. Sicrhewch fod pawb yn cyfranogi ac yn ymateb i'ch gilydd yn naturiol a heb ddarllen nodiadau/sgriptio yn slafaid.

Tasg Darllen ac Ysgrifennu (1): Hyfedredd C1

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Aseiniad academiaidd sy'n seiliedig ar ystod eang o ffynonellau Cymraeg. Dylai'r aseiniad ysgrifenedig ddangos eich gallu i ddadansoddi a dehongli ffynonellau darllen estynedig mewn dyfnder a dod i gasgliad.

Gall tystiolaeth o ysgrifennu estynedig sydd yn canolbwyntio ar addysgeg iaith, fod yn berthnasol hefyd i adran **Addysgu a Dysgu** eich portffolio.

Diolch i bob Prifysgol sydd wedi cyflwyno tasgau ar gyfer y pecyn hwn:

- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Y Brifysgol Agored